CYFARFOD, DOGFENNU

# Cyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gymraeg: 16 Tachwedd 2023

Cofnod o gyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gymraeg ar 16 Tachwedd 2023.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 19 Mawrth 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 19 Mawrth 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-16-tachwedd-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


## Cofnod

## Crynodeb o’r Pwyntiau Gweithredu



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-16-tachwedd-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cofnod

## Yn bresennol

Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Dafydd Hughes, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Rhian Huws Williams, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Lowri Morgans, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Rosemary Jones, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Andrew White, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Angharad Mai Roberts, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Seimon Brooks, Y Comisiwn Cymunedau Cymraeg

Emma Spear, Dirprwy Gyfarwyddwr Diogelu Iechyd, Llywodraeth Cymru

Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin

Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru

(Ysgrifenyddiaeth), Is-adran Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru

(Ysgrifenyddiaeth), Is-adran Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru

Aelodau staff Is-adran Cymraeg 2050 (arsylwi'n unig), Is-adran Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-16-tachwedd-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ymddiheuriadau

Samuel Williams, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Meleri Davies, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Rhys Jones, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Enlli Thomas, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Dyfed Edwards, Aelod, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

## Croeso gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Cymraeg 2050

Croesawyd pawb i gyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gymraeg gan Bethan Webb Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Cymraeg 2050,

Dymunwyd llongyfarchiadau i Sam ar enedigaeth ei efeilliaid bach newydd.

## Eitem 1: Pynciau poeth

Cafwyd diweddariad gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Cymraeg 2050 ar y canlynol:

- y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg
- penderfyniad diweddar Duolingo i beidio parhau i ddiweddaru'r cwrs Cymraeg
- cyhoeddiad diweddar 'Adroddiad Blynyddol Cymraeg 2050 ar gyfer 2022 i 2023'

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-16-tachwedd-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Eitem 2: Y Bil Addysg Gymraeg

Cafwyd diweddariad gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar hynt y Bil Addysg Gymraeg, y cyd-destun ehangach o ran y continwwm ieithyddol a'r hyn fydd yn digwydd dros y misoedd nesaf.

## Eitem 3: Cyflwyniad ar bwysigrwydd y blynyddoedd cynnar a'r Gymraeg

Cafwyd diweddariad ar bwysigrwydd a heriau'r blynyddoedd cynnar a'r Gymraeg gan Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr, Mudiad Meithrin.

[Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn ymuno â'r cyfarfod ac yn cymryd y gadair.]

## Eitem 4: Gair o Groeso gan y Gweinidog

Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, i gyfarfod Cyngor Partneriaeth y Gymraeg.

Cafwyd diweddariad gan y Gweinidog ar ddatblygiadau 'Rhaglen Waith Cymraeg 2050' ers y cyfarfod diwethaf.

## Eitem 5: Iechyd a'r Gymraeg

Cafwyd diweddariad ar raglen 'Mwy na Geiriau′ gan Emma Spear, Dirprwy Gyfarwyddwr Swyddfa'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Cymru.

Dyma rai o'r materion a godwyd yn ystod y drafodaeth:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-16-tachwedd-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- 200k o aelodau o staff yn y maes iechyd a'r sector gofal cymdeithasol a'r rhan fwyaf o'r gweithlu wedi eu haddysgu yng Nghymru
- mae gan nifer ohonynt sgiliau Cymraeg ond eu bod yn ddihyder ac yn swil i'w defnyddio. Mae gwaith ar y gweill gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i fynd i'r afael â hyn
- trafodwyd bod y gweithlu ar lefel alwedigaethol yn aml yn weithlu lleol ac felly'n cyfrannu'n fawr at yr economi ac at gymunedau. Awgrymwyd ei bod yn bwysig i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ystyried blaenoriaethu iechyd a gofal a'r Gymraeg fel rhan o'u gwaith cynllunio economaidd a sgiliau fel cam nesaf eu gwaith
- cafwyd cais gan Aelod i gael cyflwyniad ar y sector gofal cymdeithasol yn y dyfodol

### Cam Gweithredu 1

Ysgrifenyddiaeth i drefnu cyflwyniad ar y sector gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

## Eitem 6: Diweddariad ar Ystadegau'r Gymraeg

Cafwyd cyflwyniad gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar y data diweddaraf am y Gymraeg gan gynnwys yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a'r Arolwg Defnydd Iaith.

Trafodwyd yr isod yn rhinwedd y cyflwyniad:

- cydnabuwyd pwysigrwydd mesur gallu ieithyddol, ond hefyd yr angen i holi cwestiynau sy'n anos i'w mesur e.e. sut wyt ti yn teimlo at y Gymraeg?

[Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn ymadael â'r cyfarfod a swyddog o Lywodraeth Cymru yn cymryd y gadair.]

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-16-tachwedd-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Eitem 7: Y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, diweddariad

Trosglwyddwyd yr awenau i Seimon Brooks, Cadeirydd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, i roi diweddariad ar waith y Comisiwn hyd yma.

- Trafodwyd rôl y mentrau iaith ym maes yr economi a'r galw am gynllunio ieithyddol cymunedol ar lefel feicro.
- Nodwyd ei bod yn bwysig i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ystyried materion cynllunio ieithyddol.
- Gwahoddwyd aelodau'r Cyngor sydd â diddordeb i gyfarfod eto gyda Seimon i wneud yn siŵr bod pob llais yn cael ei glywed.

### Cam Gweithredu 2

Ysgrifenyddiaeth i drefnu cyfarfod rhwng y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ag aelodau'r Cyngor sydd â diddordeb i drafod gwaith y Comisiwn ymhellach.

# Crynodeb o'r Pwyntiau Gweithredu

| Cam Gweithredu | Pwynt gweithredu | I bwy? | Wedi cwblhau? |
|---|---|---|---|
| 1. | Ysgrifenyddiaeth i drefnu cyflwyniad ar y sector gofal cymdeithasol yn y dyfodol. | Ysgrifenyddiaeth | Ydw. |
| 2. | Ysgrifenyddiaeth i drefnu cyfarfod rhwng y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ag aelodau'r Cyngor sydd â diddordeb i drafod | Ysgrifenyddiaeth | Ydw. |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-16-tachwedd-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Cam Gweithredu | Pwynt gweithredu | I bwy? | Wedi cwblhau? |
|---|---|---|---|
| | gwaith y Comisiwn ymhellach. | | |

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-cyngor-partneriaeth-y-gymraeg-16-tachwedd-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.